

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Castell-nedd Port Talbot

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Castell-nedd Port Talbot i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Castell-nedd Port Talbot wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Castell-nedd Port Talbot wedi cyflawni 6 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 3.

Mae gwasanaeth llyfrgell Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflawni'n effeithiol ar gyfer ei gymuned leol, er gwaethaf rhai gostyngiadau mewn perfformiad yn 2017-18, yn enwedig o ran toriadau i'r gyllideb deunyddiau. Mae'n galonogol bod arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael â'r dirywiad hwn yn 2018-19. Dengys y gwasanaeth hefyd gryfder ac arweinyddiaeth mewn nifer o feysydd, ac mae i'w ganmol am ei gyfraniad i ddatblygiadau yn y sector, yn enwedig yn ymwneud â mynediad digidol a darparu e-adnoddau. Mae'r awdurdod yn parhau i gefnogi saith llyfrgell a reolir gan y gymuned (dwy yn llai nag yn 2016-17), gan ymestyn y gwasanaeth i gyrraedd y tu hwnt i'w wyth man gwasanaeth swyddogol er budd defnyddwyr gwasanaeth, er nad yw'r cyfraniad hwn yn cael ei gyfrif fel rhan o berfformiad y gwasanaeth statudol.

- Cyflwynodd Castell-nedd Port Talbot bedair astudiaeth achos yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth yn ei wneud. Dywedodd 97% o'r rhai a fynychodd sesiynau hyfforddi eu bod wedi cael cymorth i gyflawni eu hamcanion.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi a drefnwyd ymlaen llaw, a'r nifer sy'n cael cymorth hyfforddiant anffurfiol, ill dau wedi gostwng ychydig, ond maent yn dal i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru.
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell wedi cynyddu, a'r perfformiad yr ail uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.
- Mae ymweliadau corfforol a benthyciadau llyfrau wedi gostwng, ond ystyrir bod problemau gweithredol, sydd bellach wedi'u datrys, wedi bod yn ffactor. Bu cynnydd i'w groesawu yn nifer aelodau'r llyfrgell, ac yn nifer y benthycwyr gweithredol.
- Roedd gostyngiadau i'r gyllideb wedi effeithio ar y gyllideb deunyddiau yn 2017-18, gyda chyfanswm y gwariant wedi gostwng 20%. O ganlyniad, roedd y targedau derbyniadau wedi'u methu o gryn dipyn. Mae ymrwymiad i fynd i'r afael â'r mater hwn yn 2018-19.
- Mae lefelau'r staff a chyfanswm oriau agor blynyddol yn parhau i fod yn is na'r targed; nid yw'r datganiad blynyddol yn cynnwys y saith llyfrgell a reolir gan y gymuned, er eu bod yn parhau i gael eu cefnogi gan arbenigedd staff, ac ystod o adnoddau gwasanaeth.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ac adnoddau ym meysydd cynhwysiant digidol, iechyd a lles, llythrennedd plant a dysgu gydol oes. Cynigir ystod o wasanaethau i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig, gan gynnwys gweithio gyda ffoaduriaid i gynorthwyo â sgiliau iaith a thechnoleg. Mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan ym mhartneriaeth ranbarthol Books4U ac mae'n dal i gefnogi'r cynllun Pasbort sy'n agor llyfrgelloedd academaidd i aelodau llyfrgell Castell-nedd Port Talbot. Mae Strategaeth Llyfrgell (2016-2021) yn nodi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y gwasanaeth a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol ehangach.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Castell-nedd Port Talbot wedi cyflawni 6 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 3.

| Dangosydd ansawdd   | Cyflawni? |                  |
|---|-----------|------------------|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:   |           | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh   | ✓         |                  |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth   | ✓         |                  |
| c) Cymorth e-lywodraeth   | ✓         |                  |
| d) Datblygu darllenwyr  | ✓         |                  |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles  |           | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau   | ✓         |                  |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol  | ✓         |                  |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles   | ✓         |                  |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw   | ✓         |                  |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles  | ✓         |                  |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✓         | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth   | ✓         | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol  |           | Heb ei gyflawni  |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth  | x         |                  |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen   | x         |                  |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg  |           | Heb ei gyflawni  |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg   | x         |                  |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen   | x         |                  |
| DA 11 Mynediad ar-lein:   |           | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd  | ✓         |                  |

| Dangosydd ansawdd                                  | Cyflawni? |                    |
|--|-----------|--------------------|
| ii) Darpariaeth Wi-Fi                              | ✓         |                    |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau                           |           | Cyflawni'n llawn   |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod  | ✓         |                    |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✓         |                    |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:              |           | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth                    | x         |                    |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth        | x         |                    |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✓         |                    |
| iv) Canran DPP                                     | ✓         |                    |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth            | x         | Heb ei gyflawni    |

Ni fu newid ym mherfformiad Castell-nedd Port Talbot o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

### 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid yw Castell-nedd Port Talbot eto wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr; mae cynlluniau i gynnal y rhain yn ystod 2018-19.

| Dangosydd perfformiad  | Safle               | Isaf  | Canolrif | Uchaf |
|--|---------------------|-------|----------|-------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth  |                     |       |          |       |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:                         | <i>amherthnasol</i> | 73%   | 94%      | 97%   |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:                             | <i>amherthnasol</i> | 38%   | 90%      | 95%   |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 97%                 | 11/17 | 75%      | 98%   |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Castell-nedd Port Talbot bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Cân a Rhigwm – effaith y sesiynau hyn ar deuluoedd ifanc. Mae'r rhieni wedi sylwi ar sut y maent yn gwella hyder eu plant, ynghyd â'u sgiliau cyfathrebu a chymdeithasu; mae'r rhieni eu hunain yn elwa o gefnogaeth cyfoedion, ac maent wedi gwneud ffrindiau newydd.
- Cymryd rhan – effaith y gwasanaeth llyfrgell ar unigolyn sydd ag anghenion arbennig; ar ôl lleoliad gwaith yno mae ymweld â'r llyfrgell wedi dod yn rhan allweddol o'i fywyd –

mynychu dosbarthiadau, boreau coffi Hanes Lleol, a benthyg llyfrau i helpu gyda phrosiectau personol – gan wella ei wybodaeth a'i les emosiynol.

- Gwasanaethau Danfoniadau i'r Cartref – effaith y gwasanaeth hwn ar unigolion sydd ag anghenion arbennig; gan roi mwy o annibyniaeth iddynt, a darparu cyswllt cymdeithasol gwerthfawr.
- Lles Plant – effaith y llyfrgell ar un plentyn sydd wedi bod yn dod yno ers pan ydoedd yn fabi; gan elwa ar fynediad am ddim i ystod o lyfrau na allai ei deulu fforddio eu prynu, a'r cyfle i ymuno â chlybiau / gweithgareddau'r llyfrgell. Mae wedi datblygu sgiliau darllen uwch, ac mae wrth ei fodd â'r llyfrgell a'r staff gwych yno.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad  |                     | Safle | Isaf  | Canolrif | Uchaf | 2016/17 |
|--|---------------------|-------|-------|----------|-------|---------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth  |                     |       |       |          |       |         |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | <i>amherthnasol</i> |       | 24%   | 83%      | 94%   | 88%     |
| c) iechyd a lles   | <i>amherthnasol</i> |       | 33%   | 65%      | 95%   | 86%     |
| d) lle diogel a chroesawgar  | <i>amherthnasol</i> |       | 90%   | 98%      | 100%  | 99%     |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid  |                     |       |       |          |       |         |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau   | <i>amherthnasol</i> |       | 88%   | 91%      | 98%   | 98%     |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'   | <i>amherthnasol</i> |       | 93%   | 99%      | 100%  | 100%    |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'  | <i>amherthnasol</i> |       | 74%   | 86%      | 94%   |         |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;  | <i>amherthnasol</i> |       | 93%   | 97%      | 99%   | 100%    |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau   | <i>amherthnasol</i> |       | 8.5   | 9.1      | 9.2   | 9.7     |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr  |                     |       |       |          |       |         |
| a) mynychwyr fesul pen   | 77                  | 5/22  | 10    | 32       | 238   | 81      |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen   | 372                 | 4/22  | 15    | 199      | 473   | 390     |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth  | 526                 | 2/22  | 82    | 228      | 684   | 496     |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell   |                     |       |       |          |       |         |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth   | 4,520               | 4/22  | 2,501 | 4,047    | 7,014 | 4,632   |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen  | 910                 | 10/22 | 243   | 866      | 2,211 | 1,136   |
| c) benthychwyr gweithredol fesul pen   | 190                 | 6/22  | 100   | 154      | 229   | 156     |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *   | 47                  | 15/22 | 4     | 68       | 663   |         |
| DA 11 Mynediad ar-lein   |                     |       |       |          |       |         |

| Dangosydd perfformiad   |         | Safle | Isaf   | Canolrif | Uchaf   | 2016/17 |
|---|---------|-------|--------|----------|---------|---------|
| b) cyfrifiaduron fesul pen <sup>^</sup>                                   | 6       | 21/22 | 5      | 9        | 14      | 6       |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd                         | 34%     | 7/22  | 14%    | 27%      | 67%     | 40%     |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau                                      |         |       |        |          |         |         |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr   | 31      | 11/21 | 3      | 31       | 196     | 10      |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr   | 2,525   | 4/21  | 40     | 1,346    | 11,939  | 1,470   |
| DA 14 Gwariant gweithredol  |         |       |        |          |         |         |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen  | £12,139 | 10/21 | £7,047 | £11,915  | £17,771 | £11,979 |
| b) % ar staff   | 61%     | 12/21 | 44%    | 63%      | 75%     | 58%     |
| % ar adnoddau gwybodaeth  | 10%     | 16/21 | 4%     | 13%      | 25%     | 12%     |
| % ar offer ac adeiladau   | 0%      | 21/21 | 0%     | 4%       | 20%     | 0%      |
| % ar gostau gweithredol eraill;   | 29%     | 5/21  | 0%     | 18%      | 37%     | 29%     |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen   | £0      | 14/20 | £0     | £338     | £17,432 | £0      |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad  |         |       |        |          |         |         |
|   | £1.38   | 17/21 | £1.24  | £1.82    | £2.41   | £1.94   |
| DA 16 Oriau agor <sup>#</sup>   |         |       |        |          |         |         |
| (iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00%   | 1/21  | 0.00%  | 0.02%    | 1.28%   | 0.00%   |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd         | 2.02%   | 15/20 | 0.00%  | 0.35%    | 11.24%  | 1.54%   |

\* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

<sup>^</sup> am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

<sup>#</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

#### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Castell-nedd Port Talbot eto wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr ac mae'r rhain ar y gweill yn ystod 2018-19. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a lles hefyd yn cael cefnogaeth dda. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi a drefnwyd ymlaen llaw, a'r nifer sy'n cael cymorth hyfforddiant anffurfiol wedi gostwng ychydig yn 2017-18, ond maent yn dal i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Nododd 97% o'r mynychwyr fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

#### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, gan fod â manteision ychwanegol cael mynediad i saith llyfrgell a reolir gan y gymuned, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y datganiad blynyddol statudol. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell wedi cynyddu eto yn 2017-18, gyda pherfformiad yr ail uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth, a darpariaeth ar gael ym mhob llyfrgell statudol i'r rheiny sydd â gofynion arbennig. Fodd bynnag, mae nifer yr ymwelwyr a benthyciadau llyfrau wedi gostwng, a'r awdurdod yn priodoli hyn i broblemau gweithredol yn gynnar yn y flwyddyn, a'r rheiny wedi'u datrys maes o law. Mewn cyferbyniad mae aelodaeth y llyfrgell a nifer y benthycwyr

gweithredol wedi cynyddu, gyda'r ffigyrau aelodaeth yn adlewyrchu'r defnydd ledled yr wyth man gwasanaeth statudol a'r saith llyfrgell a reolir gan y gymuned. Nodir problemau gyda'r system rheoli llyfrgell bresennol, a dylai'r trosglwyddo i system LMS Cymru gyfan yn 2018-19 fynd i'r afael â'r problemau hyn.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)**

Nid yw'r gwasanaeth wedi cyrraedd unrhyw un o'r targedau derbyniadau yn 2017-18, gyda chyllid yn broblem a nodwyd ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth, gan fod gostyngiadau blaenorol i'r gyllideb wedi effeithio ar y gyllideb deunyddiau. Mae'r gwariant cyffredinol wedi'i gwtogi tuag 20%, gan effeithio'n enwedig ar wariant ar adnoddau Cymraeg, sydd wedi gostwng i lai na thraean lefelau 2016-17. Mae gwario ar ddeunyddiau plant hefyd wedi mynd yn llai, ond mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu cydbwysu'r stoc oedolion / plant yn dilyn buddsoddi trwm ar adnoddau plant yn y gorffennol. Cydnabyddir bod y lefelau buddsoddi hyn yn destun pryder mawr, ac mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwmo i gynyddu'r gyllideb prynu stoc fwy nag 20% ar gyfer 2018-19. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu ryw ychydig, ond er bod defnydd o TGCh yn parhau yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru, mae'r defnydd hwn yn gostwng – tueddiad a welir yn y rhan fwyaf o wasanaethau wrth i gwsmeriaid wneud mwy o ddefnydd o'u dyfeisiau eu hunain gyda'r cyfleusterau Wi-Fi. Mae'r perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau wedi gwella, ac mae'r ddau darged hyn wedi'u cyflawni.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)**

Mae lefelau'r staff cyffredinol a niferoedd y staff cymwysedig yn ddigon tebyg i 2016-17, ond mae Castell-nedd Port Talbot yn un o 13 gwasanaeth llyfrgell nad ydynt yn cyflawni'n naill darged na'r llall. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targed o ran cyfran amser y staff a dreulir ar weithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae'r defnydd o wirfoddolwyr wedi cynyddu yn 2017-18, gyda chyfanswm o 31 ohonynt yn rhoi 81 awr yr un ar gyfartaledd i'r gwasanaeth, gan gefnogi staff cyflogedig i gyflawni eu rolau. Nid yw gwirfoddolwyr sydd yn y llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned wedi'u cynnwys yn y ffigyrau, er bod yr holl wirfoddolwyr yn cael cynnig yr un lefel o hyfforddiant a chefnogaeth â staff cyflogedig, ac mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad proffesiynol a chefnogaeth i'r gwasanaethau a reolir gan y gymuned.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw yn wir wedi cynyddu ychydig yn 2017-18, a llawer o'r cynnydd hwn wedi'i briodoli i gostau staff ychwanegol o ganlyniad i salwch hirdymor. Mae'n galonogol bod cyllid ychwanegol i'w ddyrannu yn 2018-19 i fynd i'r afael â'r diffyg cyfatebol yn y gyllideb deunyddiau. Nid yw cyfanswm yr oriau agor wedi newid, gyda'r cyfartaledd fesul pen y boblogaeth yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru, ac mae Castell-nedd Port Talbot yn un o chwe awdurdod nad ydynt yn cyrraedd y targed. Dylid nodi nad yw'r perfformiad a adroddir yn cynnwys y saith llyfrgell a reolir gan y gymuned.

## **4 Cyd-destun strategol**

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Castell-nedd Port Talbot yn nodi'r cysylltiad rhwng amcanion strategol y gwasanaeth ei hun a'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol yr awdurdod, ac amcanion y cynllun hwnnw yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyflwynwyd naratif cynhwysfawr mewn perthynas â deg thema graidd

Strategaeth y Llyfrgell, gan gynnwys darparu gwasanaethau digidol; cefnogaeth i'r economi leol; gwasanaethau sy'n galluogi iechyd, annibyniaeth a lles; a chefnogaeth i addysg a dysgu gydol oes.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, cyfeiriodd Castell-nedd Port Talbot at y weledigaeth a'r themâu craidd sydd yn ei Strategaeth Llyfrgell 2016-2021, a'r nod yw creu gwasanaeth bywiog sy'n helpu i fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y Cyngor. Serch hynny, gellid wedi manylu ar gamau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth yn 2018-19.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflawni'n effeithiol ar gyfer ei gymuned leol, er gwaethaf rhai gostyngiadau mewn perfformiad yn 2017-18, yn enwedig o ran toriadau i'r gyllideb deunyddiau. Mae'n galonogol bod arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael â'r dirywiad hwn yn 2018-19. Dengys y gwasanaeth hefyd gryfder ac arweinyddiaeth mewn nifer o feysydd, ac mae i'w ganmol am ei gyfraniad i ddatblygiadau yn y sector, yn enwedig yn ymwneud â mynediad digidol a darparu e-adnoddau. Mae'r awdurdod yn parhau i gefnogi saith llyfrgell a reolir gan y gymuned (dwy yn llai nag yn 2016-17), gan ymestyn y gwasanaeth i gyrraedd y tu hwnt i'w wyth man gwasanaeth swyddogol er budd defnyddwyr gwasanaeth, er nad yw'r cyfraniad hwn yn cael ei gyfrif fel rhan o berfformiad y gwasanaeth statudol.